# CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod Blynyddol o Bell, 28 Mehefin, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr D. De'Ath a M. Michael.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam.

EITEM AGENDA 1. Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Sivagnanam i swydd y Cadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

EITEM AGENDA 2. Penodi Is-Gadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd R. Goode i swydd y Is-Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol ac yn unol â'r Cytundeb Cydweithio

EITEM AGENDA 3. Ymddiheuriad Am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Goode (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr).

EITEM AGENDA 4. Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 5. Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 6. Datganiad o Gyfrifon 2021/22 heb eu Harchwilio Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiad 1.

(2) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i lofnodi Datganiad Cyfrifon 2021/22 heb eu Harchwilio i'w ryddhau i Archwilio Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod.

(2) Hwyluso cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

EITEM AGENDA 7. Archwilio Cymru 2022 Cynllun Archwilio (PC/SA151) –

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon Drafft, ac awdurdodi'r Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg i anfon copi o'r adroddiad at Benaethiaid y Gwasanaethau Taledig ar gyfer y Cynghorau Partner eraill.

Rheswm dros y penderfyniad

Cwrdd â'r gofynion a nodir yng Nghymal 5.1 y Cytundeb Cydweithio.

EITEM AGENDA 9. Cynllun Busnes Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Y dydlid nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2022/23.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i Gynllun Busnes 2022/23 pe cyfyd yr angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Mae'r Cytundeb Cydweithio (CC) yn nodi (yng nghymal 14) y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir bob blwyddyn yn datblygu Cynllun Busnes drafft dan gyfarwyddyd y Bwrdd Rheoli.

(2) Pwrpas y Cynllun Busnes, fel y nodir gan y CC, yw diweddaru'r wybodaeth a gynhwyswyd yn y Cynllun Busnes blaenorol; ac i nodi'r cynigion ar gyfer gweithgareddau gwasanaeth, amcanion busnes ac ariannol, targedau effeithlonrwydd, cynllunio parhad busnes, rheoli risg, lefelau staffio dangosol a newidiadau, targedau perfformiad, costau ac incwm. Nododd y CC ymhellach y dylid cyflwyno Cynllun Busnes drafft i'r Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo, ac ar ôl ei gymeradwyo, ei fod yn cael ei ddosbarthu i Bennaeth Gwasanaeth Taledig pob Awdurdod sy'n Cymryd Rhan.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i'r Cynllun Busnes a fyddai'n galluogi mân newidiadau i gael eu gwneud, yn ôl yr angen yn ystod y flwyddyn, heb fod angen dod â'r mater yn ôl i'r Cydbwyllgor. Sicrhau y gellir gwneud mân newidiadau yn brydlon mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n codi.

EITEM AGENDA 10. Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2022/23 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2022/23 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Iechyd a Diogelwch 2022/23 pe cyfyd yr angen.

Rheswm dros y benderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau fel awdurdol gorfodi o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac i gydymffurfio â chanllawiau statudol.